OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 400

## Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ACC" ("*WRA*") yw Awdurdod Cyllid Cymru;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984;

ystyr "Deddf 2001" ("*the 2001 Act*") yw Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001;

ystyr "ymchwiliad perthnasol" ("*relevant investigation*") yw ymchwiliad troseddol sy'n ymwneud â mater y mae gan ACC swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

### Cymhwyso Deddf 1984 a Deddf 2001

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) a rheoliadau 4 i 8, mae darpariaethau Deddf 1984 a gynhwysir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ("y swyddogaethau PACE cymwys") yn gymwys i ymchwiliadau perthnasol a gynhelir gan ACC.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) a rheoliadau 4 i 8, pan fo ACC yn arfer unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau PACE cymwys, mae'r darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 2 o Ddeddf 2001 yn gymwys i ymchwiliadau perthnasol a gynhelir gan ACC.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 6, mae darpariaethau Deddf 1984 a Deddf 2001 a gymhwysir gan y Rheoliadau hyn yn cael effaith fel pe bai cyfeiriadau at "WRA" yn cael eu rhoi yn lle cyfeiriadau at "constable", "police officer" a "the police" (sut bynnag y'u mynegir), ac mae'r darpariaethau hynny i'w dehongli yn unol â hynny.

(4) Mae darpariaethau eraill Deddf 1984, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r swyddogaethau PACE cymwys, yn gymwys i ymchwiliadau perthnasol a gynhelir gan ACC.

### Defnyddio grym rhesymol

**4.** Caiff person sy'n arfer swyddogaeth a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn ddefnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, wrth arfer y swyddogaeth honno.

### Chwilio personau

**5.** Caiff ACC chwilio person—

(a) pan ganfyddir y person mewn mangre sy'n cael ei chwilio gan ACC drwy ddibynnu ar warant a ddyroddwyd o dan adran 8 o Ddeddf 1984, neu baragraff 12 o Atodlen 1 iddi; a

(b) pan fo gan ACC achos rhesymol i gredu bod y person hwnnw yn meddu ar ddeunydd sy'n debygol o fod o werth sylweddol (pa un ai ar ei ben ei hun neu ynghyd â deunydd arall) i ymchwiliad perthnasol.

**Addasu adran 16 o Ddeddf 1984 (gweithredu gwarantau)**

**6.** Mae adran 16 o Ddeddf 1984(**1**) (gweithredu gwarantau) wedi ei haddasu fel a ganlyn—

(a) yn lle is-adran (3A) rhodder—

"(3A) If the warrant is an all premises warrant, no premises which are not specified in it may be entered or searched by a person exercising WRA functions unless that person has been authorised in writing by another person exercising WRA functions of at least Grade 7 (or equivalent).";

(b) yn lle is-adran (3B) rhodder—

"(3B) No premises may be entered or searched by a person exercising WRA functions for the second or any subsequent time under a warrant which authorises multiple entries unless that person has been authorised in writing by another person exercising WRA functions of at least Grade 7 (or equivalent)."

**Addasu adran 77(3) o Ddeddf 1984 (diffiniad o "independent person")**

**7.** Mae adran 77(3) o Ddeddf 1984(**2**) (diffiniad o "independent person") wedi ei haddasu i'r graddau bod y diffiniad o "independent person" yn cynnwys person sy'n arfer swyddogaeth a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn.

**Awdurdodiad**

**8.** Nid yw'r swyddogaethau a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn ond yn arferadwy gan bersonau sydd ag awdurdodiad ysgrifenedig gan ACC i gynnal ymchwiliadau perthnasol.

*Mark Darkeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

22 Mawrth 2018

(**1**) Mewnosodwyd adran 16(3A) a (3B) gan adrannau 113(9)(a) a 114(8)(b) o Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

(**2**) Diwygiwyd adran 77 gan baragraff 48 o Ran 4 o Atodlen 36 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44). Mae diwygiad arall i'r adran hon ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.